# Gwasanaeth Mewngymorth CAMHS i Ysgolion Powys

RHIF FFÔN: 01686 252843
Peiriant ateb ar gyfer ceisiadau am ymgynghoriad neu ymholiadau eraill.
E-bost ar gyfer dogfennau ymgynghori yn unig:
PowysCAMHS.SchoolsIn-Reach@wales.nhs.uk
Twitter: @Pthbschin_reach

**Nod Gwasanaeth Mewngymorth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed(CAMHS) i Ysgolion Powys yw meithrin gallu (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth a hyder) mewn ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion a gwella mynediad ysgolion at gyswllt, ymgynghoriaeth a chyngor arbenigol, lle bo angen.**

**Powys CAMHS School In-Reach Service**
Gwneir hyn drwy hyfforddiant, addysg a chodi ymwybyddiaeth gyda staff yr ysgol, sy'n adnabod y plentyn/person ifanc er mwyn lleihau'r angen i gyflwyno person dieithr i gynnig cymorth. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith Weare (2015), a nododd y buddion o ysgolion yn troi'n emosiynol gyfannol a mabwysiadu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol. Trwy ddilyn dull gyfannol, mae gwasanaethau ar waith i gefnogi disgyblion a staff I gael gafael ar wasanaethau cymorth ar gyfer iechyd emosiynol, ac felly mae staff hefyd yn cael manylion a mynediad at gymorth lles.

Cafodd y Prosiect Mewngymorth CAMHS i Ysgolion Powys ei dreialu mewn nifer o ysgolion peilot yng Nghymru, gwerthuswyd ysgolion uwchradd yn Ne Powys fel rhan o hyn (Llywodraeth Cymru 2021). Mae'r cynllun peilot bellach yn cael ei ddatblygu ledled Cymru a chaiff ei gyflwyno a'i gynnig i bob ysgol ym Mhowys ar gyfer plant oedran ysgol statudol.

**Hyfforddiant/ Addysg:**
Mae'r Gwasanaeth Mewngymorth CAMHS i Ysgolion Powys a'r tîm CAMHS ehangach, yn cynnwys staff wedi'u hyfforddi i ddarparu Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid ac mae'r hyfforddiant hyn yn cael ei gynnig i holl ysgolion i godi gwybodaeth ac ymwybyddiaeth. Mae Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid yn galluogi staff i fod yn fwy hyderus wrth ymateb i anghenion y plentyn neu'r person ifanc pan ddaw materion iechyd meddwl i'r amlwg yn gyntaf neu pan fydd iechyd meddwl person ifanc yn troi'n argyfwng. Gwasanaeth Mewngymorth CAMHS i Ysgolion Powys Mae holl staff Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn gymwys i wneud y mwyaf o'r hyfforddiant. Mae'r cynnwys yn cael ei gyfeirio'n gyffredinol tuag at ddemograffeg plant a phobl ifanc Ysgol Uwchradd ond mae hefyd yn berthnasol i ysgolion gyda phlant oedran ysgol gynradd.

Mae prif themâu'r Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o ffactorau sy'n achosi, arwyddion a symptomau, a strategaethau y gall Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl eu defnyddio. Ymhlith y cynnwys mae, deall iselder (gan gynnwys delfryd hunanladdol a hunan-niwed), gorbryder, anhwylderau bwyta, seicosis, a chamddefnyddio sylweddau. Primary and High School staff are all eligible to access the training, the content is generally directed towards the demographic of High School children and young people but does have relevance for schools where children are primary school age.

**Ymgynghoriad:**
Bydd Ymarferydd Mewngymorth CAMHS i
Ysgolion yn cael ei neilltuo i bob ysgol ac ar gael i ymgynghori â staff i drafod pryderon a llunio cynllun i helpu cefnogi'r person ifanc yn yr ysgol. Gall yr ymgynghoriad cael ei gynnal wyneb yn wyneb, yn rhithiwr neu dros y ffôn. Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i dderbynnydd yr ymgynghoriad (aelod o staff yr ysgol), i archwilio'r materion sydd wedi codi i'r person ifanc a'i berthynas â nhw. Gall hyn gynnwys pryderon ynghylch iechyd a lles emosiynol y plentyn neu'r person ifanc wrth fynd i'r afael â materion a welwyd o ymddygiad neu gyflwyniad yn yr ysgol.

Gall yr ymgynghoriad gynnwys rhoi cyngor am ble i ddod o hyd i gymorth a chyfle i rannu adnoddau. Mae'n ofynnol bod y person sy'n derbyn yr ymgynghoriad yn mynychu gydag achos wedi'i baratoi I'w trafod ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gwblhau'r gwaith, cynnal ei berthynas â'r plentyn neu'r person ifanc, y cynlluniau a luniwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn yr ymgynghoriad.

Nid yw ymgynghoriad yn addas ar gyfer achosion brys, dylid nodi hyn gyda rhieni/gofalwyr a'u cyfeirio at yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth perthnasol. Fel arall, gallwch eu cyfeirio at dîm Iechyd Meddwl Sylfaenol Powys neu Dîm CAMHS Arbenigol drwy gysylltu ag Ymarferydd Dyletswydd CAMHS.

Gall ymgynghoriad fod yn ddefnyddiol i ddatblygu achos lle nad yw sefyllfa yn yr ysgol wedi newid, lle mae strategaethau wedi'u rhoi ar waith, i drafod newidiadau mewn ymddygiad neu gyflwyniad ac yn cynnig y cyfle i adlewyrchu. Gall ymgynghoriad hefyd nodi a oes angen cyfeirio at Wasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol a Gwasanaethau CAMHS Arbenigol a chymorth gydag atgyfeiriadau os oes angen.

Bydd angen gofyn am ganiatâd gan rieni ar gyfer yr ymgynghoriad os caiff manylion y bobl ifanc eu rhannu, neu fel arall byddai angen cynnal yr ymgynghoriad gan gadw anhysbysrwydd.